cyngor doeth am

GYLLID I FYFYRWYR

Benthyciadau i fyfyrwyr – canllaw i amodau a thelerau 2016/17

www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk

student finance wales
cyllid myfyrwyr cymru

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Cynnwys

1 Canllaw am beth yw hwn? 2

2 Contract eich benthyciad 2

3 Pwy sy'n gwneud beth? 3

4 Eich cyfrifoldebau chi 4

5 Ar ba Gynllun Ad-dalu ydych chi? 6

Pryd fyddwch yn ad-dalu 6
Beth fyddwch yn ad-dalu 7
Faint o log a godir arnoch 9

6 Sut fyddwch yn ad-dalu 10

Beth fydd yn digwydd pan fyddwch yn gyflogedig 10
Beth fydd yn digwydd pan fyddwch yn hunangyflogedig 11
Beth fydd yn digwydd os byddwch yn teithio neu'n mynd i weithio mewn gwlad dramor 12
Pryd fydd eich benthyciadau yn cael eu canslo 12
Beth fydd yn digwydd os na fyddwch yn talu eich ad-daliadau 13
Nesáu at orffen ad-dalu eich benthyciad 13

7 Beth i'w wneud os fyddwch yn anfodlon 14

8 Cysylltiadau defnyddiol 15

1 Canllaw am beth yw hwn?

Mae'r canllaw hwn ar gyfer myfyrwyr sy'n cael benthyciad myfyrwyr yn ystod blwyddyn academaidd 2016/17.

Mae'n esbonio beth ydych yn ymrwymo iddo pan fyddwch yn cael benthyciad. Mae'n bwysig eich bod yn darllen y canllaw hwn yn ofalus gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth am amodau presennol eich benthyciad ac ynghylch ad-dalu. Dylech gadw copi.

Gallwch weld manylion llawn yr amodau i gael benthyciadau i fyfyrwyr yn y Rheoliadau Cymorth i Fyfyrwyr perthnasol.

Caiff yr amodau ynghylch ad-dalu Benthyciadau sy'n Ddibynnol ar Incwm eu cynnwys yn y rheoliadau canlynol (y gallant gael eu disodli gan reoliadau diweddarach).

• Ar gyfer Cymru a Lloegr, Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) 2009, fel y'u diwygiwyd;

• Ar gyfer Gogledd Iwerddon, Rheoliadau Addysg (Benthyciadau Myfyrwyr) (Ad-dalu) (Gogledd Iwerddon) 2009, fel y'u diwygiwyd; ac

• Ar gyfer yr Alban, Rheoliadau Ad-dalu Benthyciadau Myfyrwyr (Yr Alban) 2000 fel y'u diwygiwyd.

Gallwch ddarllen y rheoliadau hyn ar-lein trwy droi at: **www.legislation.gov.uk** neu eu harchebu gan Lyfrfa Ei Mawrhydi (TSO) Cyf (llinell ffôn er mwyn archebu **0870 600 5522**). Neu eu harchebu ar-lein trwy droi at: **www.tsoshop.co.uk**

Gallai'r rheoliadau newid o bryd i'w gilydd ac mae hyn yn golygu y gallai amodau eich benthyciad newid hefyd.

Caiff y canllaw hwn ei ddiweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau, a'ch cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod gennych y fersiwn diweddaraf.

Gwybodaeth bellach

Os oes gennych chi gwestiynau am amodau eich benthyciad o hyd ar ôl darllen y canllaw hwn, trowch at: **www.studentloanrepayment.co.uk**

2 Contract eich benthyciad

Pan fyddwch yn cael benthyciad myfyriwr, byddwch yn llofnodi ffurflen datganiad a fydd yn nodi eich bod wedi darllen a deall y canllaw hwn. Rhaid i chi gytuno i ad-dalu'ch benthyciad yn unol â'r rheoliadau sy'n berthnasol ar yr adeg pan fo'r ad-daliadau yn ddyledus, yn unol â'r rheoliadau sy'n cael eu diwygio o bryd i'w gilydd.

Yn ddibynnol ar ble byddwch chi'n ymgeisio, mae contract eich benthyciad gyda naill ai'r Adran Addysg (DfE) yn Lloegr; Adran yr Economi (DfE) yng Ngogledd Iwerddon; Gweinidogion yr Alban; Gweinidogion Cymru neu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC), sy'n sefydliad llywodraeth di-elw. Gweler y cais am fenthyciad am ragor o fanylion.

3 Pwy sy’n gwneud beth?

Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC)

Mae SLC yn gyfrifol am:

• dalu’r benthyciadau ar gyfer myfyrwyr o Gymru, o Loegr, o Ogledd Iwerddon, o’r Alban a myfyrwyr yr UE;

• rheoli eich cyfrif, gan gynnwys ychwanegu llog ac ad-dalu unrhyw ordaliadau; ac

• ateb cwestiynau am eich benthyciad.

Cyllid a Thollau EM (HMRC)

Mae HMRC yn casglu ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr gan gyflogwyr trwy system dreth y DU. Os ydych yn hunangyflogedig, byddwch yn ad-dalu trwy’r trefniant hunanasesu pan fyddwch yn llenwi eich ffurflenni treth.

Eich cyflogwr

Mae’ch cyflogwr yn casglu ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr ar ran HMRC, gan gymryd ad-daliadau o’ch cyflog yn uniongyrchol mewn ffordd debyg i dreth incwm (PAYE) a chyfraniadau Yswiriant Gwladol (NICs). Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y ffordd y cesglir eich ad-daliadau trwy’r system dreth, dylech siarad gyda’ch cyflogwr.

Rhannu gwybodaeth

Mae’n gyfreithlon i HMRC roi gwybodaeth i SLC am eich ad-daliadau. Fodd bynnag, ni all HMRC roi unrhyw wybodaeth i SLC am eich trefniadau treth, gan fod y rhain yn gyfrinachol. Yn ogystal, ni fydd eich cyflogwr na HMRC yn cael unrhyw fanylion am gyfrif eich benthyciad gan SLC, ac eithrio’r ffaith bod gennych chi fenthyciad a pha drothwy ad-dalu sy’n berthnasol i chi (gweler tudalen 6 am fanylion). Mae Deddf Diogelu Data 1998 yn ymwneud ag unrhyw wybodaeth bersonol a drosglwyddir rhwng SLC, HMRC a’r Adran Gwaith a Phensiynau.

4 Eich cyfrifoldebau chi

Mae angen i chi ddarparu gwybodaeth gyflawn a chywir

Pan fyddwch yn gwneud cais am fenthyciad, bydd yn rhaid i chi ddarparu gwybodaeth benodol fel bod modd casglu ad-daliadau pan fyddant yn ddyledus. Rhaid i chi sicrhau eich bod yn darparu gwybodaeth gyflawn a chywir pan fyddwch yn cael y benthyciad ac mae'n rhaid i chi ddweud wrth SLC am unrhyw newidiadau i'r manylion hyn:

• yn ystod y broses ymgeisio;

• yn ystod eich cyfnod yn y brifysgol neu'r coleg; a

• nes i chi ad-dalu eich benthyciad yn llawn.

Os na fyddwch yn darparu'r wybodaeth fanwl ddiweddaraf i SLC, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu tâl cosb neu ad-dalu'r benthyciad ac unrhyw log a chosbau fel un cyfandaliad.

Os na fyddwch yn cadw mewn cysylltiad gyda ni, neu'n ein hysbysu o unrhyw newidiadau i unrhyw rai o'ch manylion personol, codir cyfradd llog o RPI + 3% ar eich benthyciad Cynllun 2 (gweler tudalen 6) ar ôl Ebrill 2016, beth bynnag fo'ch incwm. Yn ogystal, rhaid i chi hysbysu SLC (os nad ydych bellach yn astudio); eich Awdurdod Addysg lleol (os ydych yn fyfyriwr o Ogledd Iwerddon); Tîm Ewropeaidd Gwasanaethau Cyllid i Fyfyrwyr (os ydych yn fyfyriwr UE); neu SAAS (os ydych yn fyfyriwr o'r Alban):

• os byddwch yn newid eich enw, eich rhif ffôn neu fanylion y cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu y telir eich benthyciad i mewn iddo;

• os byddwch yn newid prifysgol, coleg neu gwrs;

• os byddwch yn cael bwrsariaeth, dyfarniad gofal iechyd neu ysgoloriaeth (er enghraifft, gan fwrsariaeth Adran Iechyd);

• os bydd cyfeiriad eich cartref, eich cyfeiriad yn ystod y tymor neu gyfeiriad eich rhieni yn newid;

• os byddwch yn gwybod bod dyddiadau cychwyn neu orffen eich cwrs wedi newid;

• os na fyddwch yn dechrau astudio, os byddwch yn gadael eich cwrs neu'n cael eich diarddel;

• os byddwch yn absennol o'ch cwrs am dros 60 diwrnod oherwydd salwch;

• os byddwch yn absennol am gyfnod am unrhyw reswm ac eithrio oherwydd salwch;

• os byddwch yn priodi;

• os ydych yn bwriadu gadael y wlad; neu

• os byddwch yn newid eich statws cyflogaeth (er enghraifft, o gyflogedig i hunangyflogedig)

Rhaid i chi ddarparu eich rhif Yswiriant Gwladol (NINO). Ni fydd modd i SLC brosesu'ch cais heb hwn, oni bai eich bod yn fyfyriwr UE. Dylai myfyrwyr UE y mae ganddynt NINO ddarparu hwn pan fyddant yn gwneud cais. Bydd SLC yn gofyn i'r Adran Gwaith a Phensiynau (neu'r asiantaeth Nawdd Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon, pan fo hynny'n berthnasol) i gadarnhau hyn, er mwyn osgoi ceisiadau twyllodrus.

Yn ogystal, bydd angen i HMRC gael y manylion hyn er mwyn iddynt wybod bod gennych chi fenthyciad myfyriwr ac er mwyn iddynt allu casglu ad-daliadau, neu ofyn i'ch cyflogwr wneud hynny. Os nad oes gennych chi NINO neu os ydych wedi ei golli, dylech ffonio llinell gymorth cofrestriadau Yswiriant Gwladol HMRC ar **0300 200 3502**.

Bydd ad-daliadau a gesglir gan eich cyflogwr yn cael eu nodi ar eich slipiau cyflog. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i gadw cofnod o'r taliadau hyn gan fod SLC yn derbyn y manylion hyn gan HMRC wedi i'r flwyddyn dreth ddod i ben yn unig.

Os byddwch yn ymrwymo i un cytundeb benthyciad neu fwy gydag SLC cyn y byddwch yn 18 oed, gofynnir i chi gadarnhau'r cytundeb(au) ar ôl i chi gael eich pen-blwydd yn 18 oed. Mae cadarnhau yn golygu datgan yn ffurfiol eich bod wedi ymrwymo i gytundeb y benthyciad. Mae hwn yn rhag-amod angenrheidiol o'ch cymhwystra i gael cyllid i fyfyrwyr os ydych yn dymuno gwneud cais am gyllid pellach ar ôl i chi gael eich pen-blwydd yn 18 oed. Pan fyddwch yn 18 oed neu'n hŷn, byddwch yn cadarnhau unrhyw gytundeb benthyciad y gwnaethoch ymrwymo iddo cyn i chi gael eich pen-blwydd yn 18 oed pan fyddwch yn llofnodi'r datganiad am gyllid i fyfyrwyr pellach. Os ydych wedi ymrwymo i gytundeb benthyciad cyn i chi gael eich pen-blwydd yn 18 oed ac os na fyddwch yn gwneud cais am unrhyw gyllid i fyfyrwyr pellach, bydd SLC yn cysylltu â chi ynghylch y broses gadarnhau, er mwyn sicrhau na fydd eich cymhwystra i gael cyllid yn y dyfodol yn cael ei effeithio.

Mae angen i chi ad-dalu'ch benthyciad

Yn ôl y gyfraith, rhaid i chi ad-dalu'ch benthyciad yn unol â chontract y benthyciad a'r rheoliadau. I'r rhan fwyaf o bobl, cesglir ad-daliadau trwy system dreth y DU wrth i gyflogwyr gymryd symiau o'u cyflog trwy system Talu Wrth Ennill (PAYE). Os ydych yn gwsmer hunangyflogedig, byddwch yn gwneud ad-daliadau trwy'r broses hunanasesu treth. Os ydych yn byw mewn gwlad dramor, byddwch yn ad-dalu'ch benthyciad i SLC yn uniongyrchol. Mae'r adran Ad-dalu ar dudalen 10 yn disgrifio'r broses yn fanylach.

Atebolrwydd benthyciadau

Mae dod yn atebol am eich holl fenthyciad neu ran ohono yn golygu y bydd unrhyw daliadau a delir i chi, neu i'ch prifysgol neu goleg, yn cael ei ychwanegu i falans eich benthyciad a bydd angen i chi ad-dalu'r swm hwnnw pan fydd hi'n bryd i chi ddechrau ad-dalu.

Benthyciadau Cynhaliaeth

Telir Benthyciadau Cynhaliaeth i chi yn uniongyrchol ar ddechrau pob tymor a byddwch yn atebol am bob rhandaliad ar ôl iddo gael ei dalu.

Benthyciadau Ffioedd Dysgu

Os ydych yn byw yng Nghymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon fel arfer

Os ydych yn fyfyriwr amser llawn, byddwch yn atebol dros ganran o'ch Benthyciad Ffioedd Dysgu ar ddechrau pob tymor academaidd.

Os ydych yn fyfyriwr rhan-amser sy'n byw yn Lloegr fel arfer, byddwch yn atebol am randaliad cyntaf eich Benthyciad Ffioedd Dysgu ar ôl i chi fod ar eich cwrs am bythefnos. Byddwch yn atebol am randaliadau yn y dyfodol ar ddechrau ail a thrydydd tymor eich cwrs, fel y dangosir yn y tabl isod.

Byddwch yn parhau i fod yn atebol am y swm hwn hyd yn oed os byddwch yn tynnu yn ôl, yn trosglwyddo neu'n atal eich astudiaethau dros dro yn nes ymlaen yn y dyfodol.

Pan fyddwch yn dod yn atebol am fenthyciad, am faint o'ch Benthyciad Ffioedd Dysgu fyddwch yn atebol amdano?	
Ar ddechrau tymor 1	25% o'r ffioedd dysgu
Ar ddechrau tymor 2	25% o'r ffioedd dysgu
Ar ddechrau tymor 3	50% o'r ffioedd dysgu

Os ydych yn byw yn yr Alban fel arfer

Bydd eich Benthyciad Ffioedd Dysgu yn cael ei dalu yn uniongyrchol i'ch prifysgol neu goleg mewn un rhandaliad, ar ôl iddynt gadarnhau eich bod yn bresennol ar 1 Rhagfyr 2016. Os byddwch yn tynnu'n ôl cyn 1 Rhagfyr 2016, ni thelir unrhyw Fenthyciad Ffioedd Dysgu. Os byddwch yn trosglwyddo i brifysgol neu goleg newydd yn ystod tymor un, bydd eich Benthyciad Ffioedd Dysgu yn cael ei dalu i ba bynnag brifysgol neu goleg yr oeddech yn mynychu ar 1 Rhagfyr 2016. Gallai'r dyddiad hwn fod yn wahanol os nad yw'ch cwrs yn cychwyn yn yr hydref.

5 Ar ba gynllun ad-dalu ydych chi?

Bydd y trefniadau ad-dalu a fydd yn berthnasol i'ch benthyciad yn ddibynnol ar ble'r ydych yn byw a'r adeg pan wnaethoch chi gychwyn ar eich cwrs. Cadwch olwg am y blychau lliw sy'n esbonio'r broses ad-dalu sy'n berthnasol i chi.

Cynllun ad-dalu 1

Os ydych chi:

• yn byw yng Ngogledd Iwerddon neu'r Alban, neu
• yn fyfyriwr UE sy'n cael eich ariannu gan Ogledd Iwerddon neu'r Alban

Neu:

• os cychwynnoch ar eich cwrs cyn 1 Medi 2012

ac

• yn byw yng Nghymru neu Loegr, neu'n fyfyriwr UE sy'n cael eich ariannu gan Gymru neu Loegr

Cynllun ad-dalu 2

Os ydych chi:

• yn cychwyn ar gwrs amser llawn neu gwrs rhan-amser ar neu ar ôl 1 Medi 2012 ac yn byw yng Nghymru neu Loegr, neu os ydych yn fyfyriwr UE sy'n cael eich ariannu gan Gymru neu Loegr

Cynllun ad-dalu 1

Bydd disgwyl i chi ddechrau talu'r benthyciad yn ôl y mis Ebrill wedi i chi gwblhau neu adael eich cwrs. Dim ond pan fydd eich incwm dros y trothwy o £336 yr wythnos, £1,457 y mis neu £17,495 y flwyddyn y byddwch yn dechrau talu ad-daliadau. Gallwch hefyd wneud ad-daliadau gwirfoddol ychwanegol i SLC ar unrhyw adeg, a fydd yn gostwng eich balans yn gynharach.

Cynllun ad-dalu 2

Os ydych yn fyfyriwr amser llawn, bydd gofyn i chi ddechrau ad-dalu'ch benthyciad ym mis Ebrill ar ôl i chi gwblhau neu adael eich cwrs.

Os ydych yn fyfyriwr rhan-amser, bydd gofyn i chi ddechrau ad-dalu'ch benthyciad ym mis Ebrill ar ôl i chi adael eich cwrs neu ym mis Ebrill bedair blynedd ar ôl diwrnod cyntaf eich cwrs (hyd yn oed os ydych yn astudio o hyd), pa un bynnag fydd yn digwydd gyntaf.

Dim ond pan fydd eich incwm dros y trothwy o £404 yr wythnos, £1,750 y mis neu £21,000 y flwyddyn y byddwch yn dechrau talu ad-daliadau.

Os bydd eich incwm yn gostwng dan £21,000 y flwyddyn, bydd ad-daliadau yn stopio a'r unig adeg y byddant yn ailgychwyn yw pan fydd eich incwm dros £21,000. Gallwch wneud ad-daliadau gwirfoddol ychwanegol i SLC ar unrhyw adeg hefyd, a fydd yn gostwng eich balans yn gynharach.

Mae ad-daliadau yn seiliedig ar eich incwm, nid ar y swm y gwnaethoch ei fenthyca neu nifer y benthyciadau i fyfyrwyr sydd gennych chi. Dylech roi gwybod i'ch cyflogwr pa gynllun ad-dalu sy'n berthnasol i chi er mwyn gallu casglu'r ad-daliadau cywir.

Cynllun ad-dalu 1

Byddwch yn ad-dalu 9% o'ch incwm dros £336 yr wythnos, £1,457 y mis neu £17,495 y flwyddyn. Os bydd eich incwm yn newid, trwy godi neu ostwng, bydd eich symiau ad-dalu yn newid yn awtomatig i adlewyrchu hyn.

Incwm bob blwyddyn cyn treth	Cyflog misol	Ad-daliad misol
Hyd at £17,495	£1,457	£0
£18,000	£1,500	£3
£21,000	£1,750	£26
£24,000	£2,000	£48
£27,000	£2,250	£71
£30,000	£2,500	£93

Cynllun ad-dalu 2

Byddwch yn ad-dalu 9% o'ch incwm dros £404 yr wythnos, £1,750 y mis neu £21,000 y flwyddyn. Os bydd eich incwm yn newid, gan godi neu ostwng, bydd eich symiau ad-dalu yn newid yn awtomatig er mwyn adlewyrchu hyn.

Incwm bob blwyddyn cyn treth	Cyflog misol	Ad-daliad misol
Hyd at £21,000	£1,750	£0
£22,000	£1,833	£7
£25,000	£2,083	£30
£30,000	£2,500	£67
£35,000	£2,916	£105
£40,000	£3,333	£142

Cynllun ad-dalu 1 a chynllun ad-dalu 2

Efallai y bydd yn rhaid i chi wneud ad-daliadau benthyciad myfyriwr o hyd pan fyddwch yn ennill llai na'r trothwy ar gyfer y naill gynllun ad-dalu neu'r llall. Bydd hyn yn digwydd os bydd eich cyflog yn uwch na'r trothwy wythnosol neu fisol yn ystod unrhyw gyfnod tâl penodedig, er enghraifft os wnaethoch chi weithio oriau ychwanegol neu gael taliad bonws a olygodd bod eich tâl yn uwch na'r trothwy ar gyfer yr wythnos honno neu'r mis hwnnw, byddech yn gwneud ad-daliad.

Byddwch yn gymwys i wneud cais i SLC am ad-daliad o'r taliadau hyn os bydd eich incwm blynyddol yn is na'r trothwy ar ddiwedd y flwyddyn dreth. Ni fydd hyn yn digwydd yn awtomatig, rhaid i chi wneud cais am ad-daliad, ond efallai y byddai'n well gennych beidio oherwydd y bydd yn gostwng balans eich benthyciad yn gyflymach.

Gwneud taliadau ychwanegol

Gallwch ad-dalu'ch benthyciad yn gyflymach trwy wneud ad-daliadau ychwanegol gwirfoddol. Gallwch wneud hyn ar unrhyw adeg trwy droi at: **www.studentloanrepayment.co.uk**

Os byddwch yn dewis gwneud ad-daliadau gwirfoddol ychwanegol, byddwch yn ad-dalu eich benthyciad yn gyflymach. Fodd bynnag, ni fydd unrhyw ad-daliadau gwirfoddol y byddwch yn eu gwneud yn effeithio ar y swm a gesglir trwy'r system dreth. Felly, os ydych yn gyflogedig, bydd yn rhaid i'ch cyflogwr gymryd symiau o'ch cyflog o hyd. Os ydych yn ad-dalu trwy'r system hunanasesu, bydd yn rhaid i chi ad-dalu'r swm a seiliwyd ar eich incwm ar gyfer y flwyddyn o hyd. Ni fydd modd i chi gael ad-daliad o unrhyw symiau gwirfoddol y byddwch yn eu talu, oni bai eich bod yn gorffen ad-dalu'ch benthyciad ac os byddwch wedi ad-dalu gormod.

Beth os oes gennyf fenthyciad cynllun ad-dalu 1 a chynllun ad-dalu 2?

Os yw'ch incwm rhwng £17,495 a £21,000 byddwch yn gwneud taliadau tuag at eich benthyciad Cynllun Ad-dalu 1 yn unig. Fodd bynnag, os yw'ch incwm yn fwy na £21,000 bydd eich ad-daliadau wedi eu lledaenu ar draws eich benthyciadau Cynllun Ad-dalu 1 a 2.

Cymru yn unig – canslo Benthyciad Cynhaliaeth yn rhannol

Os ydych yn byw yng Nghymru ac y derbynioch Fenthyciad Cynhaliaeth unrhyw bryd rhwng blwyddyn academaidd 2010/11 a 2016/17, gallai Llywodraeth Cymru ganslo hyd at £1,500 o falans eich benthyciad i fyfyrwyr cyn chi ddechrau ad-dalu.

Am fanylion pellach, trowch at: **www.studentloanrepayment.co.uk**

Faint o log a godir arnoch

Codir llog arnoch ar y benthyciad o'r diwrnod pan wneir eich taliad cyntaf nes iddo gael ei ad-dalu yn llawn. Caiff y llog ei 'gompowndio' (ei ychwanegu i'r cyfanswm sy'n ddyledus) bob mis. Bydd y gyfradd llog a godir arnoch yn dibynnu ar y cynllun ad-dalu y mae'ch benthyciad yn perthyn iddo.

Cynllun ad-dalu 1

Y gyfradd llog fydd y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) yn y mis Mawrth blaenorol, neu 1% yn uwch na chyfradd sylfaenol uchaf grŵp enwebedig o fanciau (Cyfradd Sylfaenol y Banciau), pa un bynnag yw'r isaf, ac mae'n cael ei phennu ar 1 Medi bob blwyddyn, er y gall newidiadau ddigwydd yn ystod y flwyddyn hefyd.

Gellir gweld yr wybodaeth ddiweddaraf a'r wybodaeth fanylaf am gyfraddau llog trwy droi at: **www.studentloanrepayment.co.uk**

Cynllun ad-dalu 2

Caiff swm y llog a godir ei seilio ar y gyfradd chwyddiant (RPI Mawrth) a bydd yn amrywio yn ddibynnol ar eich amgylchiadau (gweler y tabl isod). Caiff y gyfradd llog ei phennu ar 1 Medi bob blwyddyn. Dan amodau Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, caiff cyfradd llog benthyciadau myfyrwyr ei gosod yn unol â'r cyfraddau cyffredin yn y farchnad neu'n is.

Eich amgylchiadau chi	Llog
Myfyrwyr amser llawn – tra'ch bod yn astudio a hyd at 6 Ebrill wedi i chi gwblhau neu adael eich cwrs. **Myfyrwyr rhan amser** – tra'ch bod yn astudio a hyd at ba bynnag o'r dyddiadau canlynol sy'n digwydd gyntaf: 6 Ebrill wedi gadael eich cwrs neu 6 Ebrill wedi troad pedwaredd flynedd diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.	Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) plws 3%
O'r dyddiad pan fyddwch yn ddyledus i ad-dalu (wedi Ebrill 2017) hyd nes bydd y benthyciad wedi ei dalu yn llawn.	Bydd llog yn seiliedig ar eich incwm: • £21,000 neu lai = RPI • rhwng £21,000 a £41,000 = RPI plws hyd at 3%, yn ddibynnol ar incwm • dros £41,000 = RPI plws 3%
Os na fyddwch yn cadw mewn cysylltiad gyda ni, neu os na fyddwch yn rhoi gwybod i ni am unrhyw newidiadau i'ch manylion personol.	Codir RPI plws 3% ar eich benthyciad wedi Ebrill 2017 beth bynnag yw'ch incwm nes y byddwch yn cysylltu â ni.

6 Sut fyddwch yn ad-dalu

Cesglir ad-daliadau trwy'r system dreth (Talu Wrth Ennill – PAYE) os ydych yn gyflogedig neu trwy'r broses hunanasesu os ydych yn hunangyflogedig.

Beth fydd yn digwydd pan fyddwch yn gyflogedig

Os ydych yn gyflogai sy'n talu treth yn y DU, bydd eich cyflogwr yn cymryd ad-daliadau o'ch cyflog, ynghyd â threth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol, a dangosir y rhain ar eich slip cyflog.

Bydd SLC yn dweud wrth HMRC pan fyddwch yn gorffen neu'n gadael eich cwrs, gan roi manylion iddynt fel eich enw a'ch rhif Yswiriant Gwladol. Bydd HMRC yn edrych i weld a ydych yn gweithio ac os ydych, byddant yn dweud wrth eich cyflogwr bod gennych chi fenthyciad (ond nid y swm).

Yn ogystal, gall cyflogwyr gael eu hysbysu bod angen iddynt wneud didyniadau trwy ffurflenni treth arferol. Pan fyddwch yn newid swydd neu'n dechrau gweithio, efallai y bydd eich hen gyflogwr yn rhoi P45 i chi. Yn yr achos hwn, dylai'ch cyflogwr diwethaf fod wedi rhoi 'Y' yn y blwch ar gyfer benthyciad myfyriwr er mwyn rhoi gwybod i'ch cyflogwr newydd y dylai wneud didyniadau benthyciad myfyriwr. Yn ogystal, efallai y bydd cyflogwr newydd yn gofyn i chi lenwi datganiad cychwyn cyn y bydd modd iddo ddechrau talu'ch cyflog. Dylech hysbysu eich cyflogwr newydd fod gofyn i chi dalu ad-daliadau benthyciad myfyriwr.

Sut fydd cyflogwyr yn gwybod faint i'w ddidynnu o'ch tâl

Bydd HMRC yn rhoi gwybodaeth i'ch cyflogwr fel y gall gyfrifo'r swm i'w gymryd o'ch tâl. Os yw'ch tâl yn uwch na'r trothwy yn ystod y cyfnod talu, bydd eich cyflogwr yn cymryd ad-daliadau ac yn eu trosglwyddo i HMRC. Ar ôl diwedd pob blwyddyn, bydd eich cyflogwr yn anfon Cyflwyniad Talu Llawn terfynol at HMRC. Bydd HMRC yn anfon yr wybodaeth hon at SLC, a fydd yn diweddaru'ch cyfrif. Gallai gymryd ychydig amser ar ddiwedd pob blwyddyn dreth i ddiweddaru'ch cyfrif gan fod niferoedd mawr o Gyflwyniadau Talu Llawn terfynol yn cael eu cyflwyno gan gyflogwyr bob blwyddyn. Fodd bynnag, defnyddir yr ad-daliadau a wnaethoch i ad-dalu'ch benthyciad ar gyfer y flwyddyn pan gymerwyd y didyniadau o'ch cyflog.

Bydd SLC yn sicrhau bod swm cywir y llog wedi cael ei ychwanegu i'ch cyfrif, ac ni chodir unrhyw log ychwanegol arnoch, hyd yn oed os bydd eich manylion ad-dalu yn cymryd peth amser i gyrraedd SLC.

Mae'n bwysig deall y bydd ad-daliadau sy'n cael eu cymryd gan eich cyflogwr yn cael eu cyfrifo ar sail 'cyfnodau talu unigol' ac nid ar gyfanswm eich incwm ar gyfer blwyddyn gyfan. Os byddwch yn cael credydau treth, ni fydd y rhain yn cyfrif fel incwm er mwyn cyfrifo'ch ad-daliad benthyciad myfyriwr.

Dim ond pan fydd HMRC yn cael Cyflwyniad Talu Llawn terfynol eich cyflogwr y byddant yn gwybod y cyfanswm y mae'ch cyflogwr wedi'i gymryd dros y flwyddyn dreth gyfan. Mae'r cynllun yn gweithio mewn ffordd debyg i ddidyniadau treth. Bydd angen i chi gadw golwg ar yr hyn sy'n cael ei gymryd o'ch tâl bob mis, gan na fydd SLC na HMRC yn gwybod y swm fydd yn ddyledus o hyd ar eich benthyciad nes i'ch cyflogwr anfon y Cyflwyniad Talu Llawn i HMRC ac mae HMRC wedi trosglwyddo'r wybodaeth i SLC. Mae gan gyflogwyr gyfrifoldeb cyfreithiol i anfon symiau cywir yr ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr at HMRC. Gellir codi dirwy arnynt os na fyddant yn gwneud hyn.

Beth fydd yn digwydd os byddwch yn newid swydd

Pan fyddwch yn newid swydd, efallai y bydd eich cyflogwr blaenorol yn rhoi P45 i chi gydag 'Y' wedi'i nodi yn y blwch 'Parhau didyniadau Benthyciad Myfyriwr'. Bydd eich cyflogwr newydd yn dechrau gwneud didyniadau benthyciad myfyriwr o'r diwrnod talu cyntaf sydd ar gael (os yw'ch incwm yn uwch na'r trothwy). Os nad oes gennych chi P45, efallai y bydd eich cyflogwr yn gofyn i chi lenwi datganiad cychwyn sy'n cynnwys blwch ticio er mwyn dangos a oes gennych chi fenthyciad myfyriwr neu beidio. Rhaid i chi roi tic yn y blwch neu hysbysu'ch cyflogwr newydd eich bod yn atebol am wneud ad-daliadau benthyciad.

Pan fyddwch yn dechrau gweithio neu pan fyddwch yn symud swydd, rhaid i chi ddweud wrth eich cyflogwr eich bod yn gyfrifol am wneud ad-daliadau benthyciad myfyriwr. Os na fydd eich ad-daliadau yn cychwyn pryd y dylent, dylech ddweud wrth eich cyflogwr yn y lle cyntaf. Os na fydd modd i'ch cyflogwr ddatrys y mater, dylech gysylltu ag SLC neu HMRC er mwyn iddynt eich helpu. Os ydych yn hunangyflogedig, bydd modd i HMRC ddweud wrthych sut y dylech fod yn gwneud ad-daliadau. Os byddwch yn gweithio y tu allan i'r DU am dros dri mis, trowch at dudalen 12 am wybodaeth ynghylch sut i wneud ad-daliadau.

Beth fydd yn digwydd os bydd busnes eich cyflogwr yn mynd i'r wal neu os na fyddant yn talu eich didyniadau i HMRC

Ar yr amod bod gennych chi dystiolaeth bod didyniadau wedi cael eu cymryd, fel eich slipiau cyflog, bydd SLC yn credydu swm llawn yr ad-daliadau i'ch cyfrif.

Beth fydd yn digwydd pan fyddwch yn hunangyflogedig

Os ydych yn hunangyflogedig, bydd yn rhaid i chi anfon ffurflen dreth at HMRC bob blwyddyn dan y system hunanasesu (SA). Bydd eich ad-daliadau benthyciad myfyriwr yn ddyledus fel rhan o'ch bil SA ar gyfer treth. Bydd yr ad-daliad benthyciad myfyriwr yn seiliedig ar eich holl incwm gros dros y trothwy perthnasol, gan gynnwys eich holl incwm nas enillwyd (er enghraifft, incwm difidend gan gyfranddaliadau) os yw'n fwy na £2,000 y flwyddyn. Mae rhai pwyntiau cyffredinol i'w cofio wrth gyfrifo'ch incwm bob blwyddyn:

• ni chaiff incwm eich gŵr, eich gwraig, eich partner, eich rhiant neu unrhyw berthynas arall ei ystyried;

• ni chaiff incwm o Fudd-dal plant a budd-daliadau anabledd, gan gynnwys lwfans Cyflogaeth a Chymorth, ei ystyried;

• ni chaiff credydau treth eu hystyried;

• os byddwch yn gwneud ad-daliadau gwirfoddol, bydd yn rhaid i chi wneud ad-daliadau trwy system SA o hyd.

Cyflogeion y bydd HMRC yn gofyn iddynt i lenwi ffurflen hunanasesu hefyd

Os ydych yn gyflogai sy'n cael ffurflen dreth dan y system hunanasesu (SA) hefyd, efallai y bydd yn rhaid i chi wneud rhai ad-daliadau benthyciad gyda'r ffurflen, yn ogystal â'r rhai a fydd yn cael eu cymryd gan eich cyflogwr. Caiff cyfanswm y benthyciad myfyriwr y bydd yn rhaid i chi ei ad-dalu ar gyfer y flwyddyn ei seilio ar gyfanswm eich incwm ar gyfer y flwyddyn – hynny yw, eich holl incwm PAYE priodol ac unrhyw incwm ychwanegol ac unrhyw incwm nas enillwyd (os yw'n fwy na £2,000 y flwyddyn). Gallwch hawlio credyd yn eich ffurflen dreth am unrhyw symiau benthyciad myfyriwr y mae'ch cyflogwr wedi eu cymryd yn barod yn ystod y flwyddyn, fel na fyddwch yn ad-dalu gormod.

Yn yr un modd â PAYE, bydd system SA yn cyfrifo ad-daliadau'ch benthyciad ar sail eich incwm sy'n uwch na'r trothwy, ar gyfradd o 9%. Bydd unrhyw daliad SA yn ddyledus ar 31 Ionawr yn dilyn blwyddyn dreth eich asesiad. Gallwch weld gwybodaeth ynghylch sut i lenwi eich ffurflen SA yn y canllawiau a'r llyfrynnau a ddarparir gan HMRC. Os na fydd HMRC yn anfon ffurflen dreth atoch, ni fydd yn rhaid i chi wneud ad-daliadau pellach yn ychwanegol i'r rhai y mae'ch cyflogwyr yn eu cymryd yn barod.

Os ydych yn talu treth yn y DU ac os ydych yn cael ffurflen dreth hunanasesu, dylech ddefnyddio hon i ddatgan ad-daliadau benthyciad myfyriwr. Rhaid i chi lenwi'r ffurflen hon yn gywir a'i dychwelyd mewn pryd. Yn ogystal, rhaid i chi dalu eich treth a'ch ad-daliad benthyciad myfyriwr mewn pryd. Os na fyddwch yn gwneud hyn, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu llog a chosbau ariannol. Mae hyn oherwydd y bydd benthyciadau myfyrwyr yn cael eu trin yn yr un modd â threth at ddibenion y ffurflen hon.

Beth fydd yn digwydd os byddwch yn teithio neu'n mynd i weithio mewn gwlad dramor

Os byddwch yn symud i wlad dramor ac os na fyddwch yn talu treth yn y Deyrnas Unedig neu os ydych yn bwriadu gadael y Deyrnas Unedig am dros dri mis ar unrhyw adeg ar ôl i chi gwblhau neu adael eich cwrs (os yw hyn am gyfnod dros dro neu oherwydd eich bod yn byw mewn gwlad arall), byddwch yn gwneud ad-daliadau i SLC yn uniongyrchol. Rhaid i chi roi gwybod i SLC cyn i chi adael y Deyrnas Unedig. Os na fyddwch, gallant osod cosbau ar eich benthyciad ac yn ôl yr angen, gofyn i chi ad-dalu swm llawn y benthyciad a llog a chosbau fel un cyfandaliad. Mae hyn yn berthnasol i Gynllun Ad-dalu 1 a 2. Os oes gennych chi fenthyciad Cynllun 2, codir RPI plws 3% arnoch nes i chi gysylltu gyda ni.

Bydd SLC yn gofyn am fanylion eich incwm a bydd yn cyfrifo faint y dylech ei ad-dalu bob mis. Bydd SLC yn ysgrifennu atoch gyda rhagor o fanylion am eich dewisiadau ad-dalu pan fydd hi'n bryd i chi ddechrau ad-dalu.

Byddant yn newid eich incwm yn bunnoedd sterling ac yn dweud wrthych y swm fydd angen i chi ei ad-dalu bob mis mewn punnoedd sterling. Caiff eich amserlen ad-dalu fisol ei chyfrifo gan ddefnyddio'r un rheolau â'r rhai ar gyfer y sawl sy'n aros yn y DU.

Felly, byddwch yn ad-dalu 9% o'ch incwm dros y trothwy ad-dalu priodol. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd y trothwy enillion ar gyfer y wlad yr ydych yn byw ynddi yr un fath ag y mae yn y DU, gallai fod yn uwch neu'n is. Bydd SLC yn gofyn i chi wneud ad-daliadau mewn punnoedd sterling. Byddwch yn gyfrifol am unrhyw gostau sy'n ymwneud â throsi'r arian a bydd yn rhaid i chi dalu unrhyw daliadau a godir gan eich banc er mwyn trosglwyddo cronfeydd i SLC.

Cyfradd ad-dalu sefydlog

Os na fyddwch yn rhoi manylion am eich incwm i SLC, efallai y codir swm sefydlog arnoch gan ddibynnu ar ble'r ydych yn byw, a allai fod yn uwch na'r swm ad-dalu sy'n ddyledus ar sail eich incwm go iawn. Os na fyddwch yn ad-dalu'r swm hwn, efallai y bydd SLC yn cymryd camau cyfreithiol yn eich erbyn.

Pryd fydd eich benthyciadau yn cael eu canslo

Ceir amgylchiadau pan allai eich benthyciad myfyriwr gael ei ganslo ac ni fydd angen i chi ei ad-dalu fyth, megis os byddwch yn marw cyn i chi ad-dalu'ch benthyciad neu os byddwch yn mynd yn anabl ac ni fydd modd i chi weithio fyth eto. Yn ogystal, efallai y bydd eich benthyciad yn cael ei ganslo ar ôl cyfnod penodol. Mae hyn yn dibynnu ar y rheolau sydd mewn grym ar yr adeg pan fyddwch yn cael eich benthyciad, ac a ydych ar ei hôl hi gydag unrhyw ad-daliadau.

Cynllun ad-dalu 1

Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, os cawsoch y benthyciad cyn 1 Medi 2006, bydd balans eich benthyciad sy'n ddyledus ac unrhyw log yn cael ei ganslo pan fyddwch yn cyrraedd 65 oed.

Yng Nghymru a Lloegr, os cawsoch y benthyciad ar neu ar ôl 1 Medi 2006, ond cyn 1 Medi 2012, bydd balans eich benthyciad sy'n ddyledus yn cael ei ganslo 25 o flynyddoedd ar ôl y mis Ebrill pan yr oedd gofyn i chi ddechrau ad-dalu eich benthyciad. Yng Ngogledd Iwerddon, os cawsoch y benthyciad ar neu ar ôl 1 Medi 2006, bydd balans eich benthyciad sy'n weddill yn cael ei ganslo 25 o flynyddoedd ar ôl y mis Ebrill pan oedd gofyn i chi ddechrau ad-dalu'r benthyciad.

Yn yr Alban, os cawsoch eich benthyciad cyntaf cyn blwyddyn academaidd

2007/08, bydd yn cael ei ddileu pan fyddwch yn cyrraedd 65 oed. Os cawsoch y benthyciad ar neu ar ôl blwyddyn academaidd

2007/08, bydd balans eich benthyciad sy'n weddill, ac unrhyw log, yn cael ei ganslo 35 o flynyddoedd ar ôl y mis Ebrill pan oedd gofyn i chi ddechrau ad-dalu'r benthyciad.

Ym mhob achos, rhaid eich bod wedi gwneud yr holl ad-daliadau ar sail eich incwm tan y dyddiad hwnnw. Os nad, mewn amgylchiadau arbennig, gall SLC adennill unrhyw symiau sy'n ddyledus o hyd tan y dyddiad hwnnw.

Cynllun ad-dalu 2

Yng Nghymru a Lloegr, os cychwynnoch mewn addysg uwch ar neu ar ôl 1 Medi 2012, bydd unrhyw fenthyciad a llog sy'n weddill 30 o flynyddoedd ar ôl i chi ddod yn atebol dros ei ad-dalu, yn cael ei ddileu.

Rhaid eich bod wedi gwneud yr holl ad-daliadau ar sail eich incwm tan y dyddiad hwnnw. Os nad, mewn amgylchiadau arbennig, gall SLC adennill unrhyw symiau sy'n ddyledus o hyd tan y dyddiad hwnnw.

Os hoffech gael gwybod mwy am yr amgylchiadau pan fydd benthyciadau yn cael eu canslo, trowch at: **www.studentloanrepayment.co.uk**

Beth fydd yn digwydd os na fyddwch yn talu eich ad-daliadau

Yn ôl y gyfraith, rhaid i chi ad-dalu eich benthyciad yn unol â chontract a rheoliadau'r benthyciad. Os na fyddwch yn gwneud ad-daliadau, mae gan SLC yr hawl i gymryd camau cyfreithiol er mwyn adennill eich dyled. Mae hyn yn golygu bod modd i SLC gael gorchymyn llys i'ch gorfodi i ad-dalu'r cyfanswm a llog a chosbau mewn un taliad.

Gall hyn gael ei orfodi trwy'r llysoedd fel dyled sifil os ydych yn y DU neu'n byw mewn gwlad dramor, a chi fydd yn gyfrifol am yr holl gostau.

Nesáu at orffen ad-dalu eich benthyciad

Yn ystod yr wyth i'r 23 mis olaf o ad-dalu'ch benthyciad, gallwch newid y trefniant er mwyn ad-dalu trwy gyfleuster debyd uniongyrchol. Bydd hyn yn golygu ei bod yn annhebygol y byddwch yn gordalu eich benthyciad.

Bydd SLC yn ceisio cysylltu â chi cyn yr adeg hon er mwyn cynnig y dewis hwn i chi. Fodd bynnag, os ydych yn gwybod eich bod yn nesáu at y pwynt hwn, dylech gysylltu ag SLC er mwyn trefnu bod eich balans yn cael ei ad-dalu yn y fath ffordd. Yna, bydd yn rhaid i chi dalu eich debyd uniongyrchol bob mis ar y dyddiad a gytunwyd. Os na fyddwch yn gwneud y taliad, efallai y bydd SLC yn atal y dewis hwn a bydd yn rhaid i chi fynd yn ôl i ad-dalu'ch benthyciad trwy PAYE. I gael gwybod mwy am y cynllun debyd uniongyrchol, trowch at: **www.studentloanrepayment.co.uk**

Gordalu

Bydd SLC yn gwneud popeth posibl i sicrhau na fyddwch yn gordalu ar ddiwedd eich benthyciad, fodd bynnag, os nad ydych wedi cysylltu â nhw i bennu dyddiad er mwyn stopio'r ad-daliadau neu er mwyn gwneud trefniadau ad-dalu amgen, mae'n debygol y byddwch yn gordalu. Os bydd hyn yn digwydd, byddwch yn cael ad-daliad llawn o'r gordaliadau, ynghyd â llog.

Cynllun ad-dalu 1

Os oes gennych chi falans credyd pan fydd eich benthyciad wedi cael ei ad-dalu yn llawn, telir llog ar yr un gyfradd ag y mae'n cael ei godi ar eich cyfrif.

O fis Ebrill 2016, os bydd gennych chi falans credyd pan fydd eich benthyciad wedi cael ei ad-dalu yn llawn, telir llog ar gyfradd RPI neu 1% uwchben y Gyfradd Sylfaenol Banc, pa bynnag un sy'n is. Wedi diwedd y flwyddyn dreth, bydd SLC yn ysgrifennu atoch i'ch cynghori y bydd llog yn cronni am 60 niwrnod arall ar y gyfradd RPI. Yn dilyn yr hysbysiad 60 niwrnod, ni chodir unrhyw log pellach ar y balans credyd.

Cynllun ad-dalu 2

Os oes gennych chi falans credyd pan fydd eich benthyciad wedi ei ad-dalu yn llawn, telir llog ar gyfradd RPI. Ar ôl diwedd y flwyddyn dreth, bydd SLC yn ysgrifennu atoch i'ch hysbysu y bydd llog yn cronni am 60 diwrnod pellach ar gyfradd RPI. Yn dilyn y cyfnod o 60 diwrnod o rybudd, ni fydd unrhyw log pellach yn cael ei neilltuo i'r balans credyd.

7 Beth i'w wneud os byddwch yn anfodlon

Os ydych yn anfodlon gyda'r ffordd y mae'ch ad-daliadau yn cael eu casglu, dylech gysylltu ag SLC. Gallwch gofrestru cwyn trwy ffonio **0300 100 0601**, trwy ysgrifennu at Customer Relations unit, Student Loans Company, 100 Bothwell Street, Glasgow, G2 7JD, neu trwy anfon e-bost at: **customer_complaints@slc.co.uk**, ceir ffurflen Cwynion Cwsmeriaid Ar-lein i'w lawrlwytho ar: **www.slc.co.uk**

Ar ôl defnyddio'r weithdrefn hon, os byddwch yn anfodlon o hyd, gellir trefnu i gynnal adolygiad annibynnol o'ch achos. Fel arfer, bydd adolygiadau annibynnol yn cael eu cynnal gan:

• yr Aseswr Benthyciadau Myfyrwyr ar gyfer gwasanaethau a ddarparir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr;

• y Dyfarnwr ar gyfer gwasanaethau a ddarparir gan HMRC;

• yr Ombwdsmon Seneddol ar gyfer gwasanaethau a ddarperir gan y llywodraeth, megis yr Adran Iechyd (am fanylion, gweler: **www.ombudsman.org.uk**);

• yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Cymru, Gogledd Iwerddon neu'r Alban (gweler y manylion cyswllt isod) ar gyfer gwasanaethau a ddarparir gan y llywodraeth y tu allan i Loegr; neu'r

• Ombwdsmon Llywodraeth Leol ar gyfer gwasanaethau a ddarparir gan awdurdodau lleol (gweler: **www.lgo.org.uk**)

Gallwch gysylltu â'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus trwy droi at y gwefannau ar gyfer y gwasanaeth yn y wlad berthnasol.

Ar gyfer Gogledd Iwerddon, trowch at: **www.ni-ombudsman.org.uk**

Ar gyfer yr Alban, trowch at: **www.spso.org.uk**

Ar gyfer Cymru, trowch at: **www.ombudsman-wales.org.uk**

Apeliadau

Mae'r rhain yn wahanol i gwynion. Efallai eich bod yn hapus gyda'r ffordd y deliwyd gyda'ch cyfrif ond efallai eich bod teimlo na wnaethpwyd y penderfyniad cywir am eich cyfrif, a'ch bod yn dymuno apelio.

Yn yr un modd â chwynion, mae gan SLC weithdrefnau i ddelio gydag apeliadau a dylech ddilyn y rhain. Mae'r Aseswr Benthyciadau Myfyrwyr yn delio gydag apeliadau yn erbyn gwasanaethau a ddarparir gan SLC hefyd.

Mewn amgylchiadau penodol, efallai y byddwch yn ystyried defnyddio'r system gyfreithiol, er enghraifft, llys sirol, er mwyn datrys eich problem.

Os ydych yn dymuno gwneud hyn, dylech gael cyngor cyfreithiol annibynnol yn gyntaf, er enghraifft, gan gyfreithiwr, canolfan cyngor cyfreithiol neu Gyngor ar Bopeth.

8 Cysylltiadau defnyddiol

Os hoffech gael mwy o wybodaeth ynghylch ad-dalu, trowch at: **www.studentloanrepayment.co.uk** neu ffoniwch **0300 100 0611**.

Os ydych yn byw yn Lloegr

Gallwch fynd i: **www.gov.uk/studentfinance** neu gallwch ffonio Student Finance England ar **0300 100 0607** (ffôn testun **0300 100 0622**) rhwng 8am ac 8pm dydd Llun i ddydd Gwener, a rhwng 9am a 4pm ar ddydd Sadwrn a dydd Sul.

Os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon

Gallwch gael gwybodaeth am ymgeisio am fenthyciadau gan swyddfa Cyllid i Fyfyrwyr Gogledd Iwerddon. Gallwch weld manylion cyswllt swyddfeydd Cyllid i Fyfyrwyr Gogledd Iwerddon a rhagor o wybodaeth ac arweiniad trwy droi at: **www.studentfinanceni.co.uk** neu siarad gyda chynghorydd trwy ffonio **0300 100 0077**.

Os ydych yn byw yn yr Alban

Gallwch gael gwybodaeth ynghylch ymgeisio am fenthyciadau gan Student Awards Agency for Scotland (SAAS) hefyd. Mae modd gweld manylion SAAS trwy droi at: **www.saas.gov.uk**

Ar gyfer cwestiynau cyffredinol, ffoniwch **0300 555 0505**. Oriau agor: 8.30am tan 5.00pm o ddydd Llun i ddydd Iau; ac 8.30am tan 4.30pm ar ddydd Gwener.

Mae'r gwasanaeth ffôn hwn yn eich caniatáu i gael gwybodaeth 24 awr y dydd, saith niwrnod yr wythnos, trwy nodi'ch cyfeirnod SAAS.

Byddwch yn gallu gofyn am wybodaeth am gais presennol am ffioedd a chostau byw.

Os ydych yn byw yng Nghymru

Gallwch droi at: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk** neu ffonio canolfan gyswllt ddwyieithog Cyllid Myfyrwyr Cymru i gael gwybodaeth gyffredinol am fenthyciadau i fyfyrwyr. Ffoniwch **0300 200 4050** rhwng 8am ac 8pm o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 9am ac 1pm ar ddydd Sadwrn.

Os ydych yn byw mewn gwlad dramor

Dylech ffonio Tîm Ewropeaidd Gwasanaethau Cyllid i Fyfyrwyr ar **0141 243 3570**.

Yn ogystal, gallwch ysgrifennu atynt: Student Finance Services European Team, PO box 89, Darlington, County Durham, England, DL1 9AZ.

Cyllid a Thollau EM

Ar ôl i chi ddechrau ad-dalu'ch benthyciad, os bydd gennych chi unrhyw gwestiynau am y ffordd y cesglir eich ad-daliadau trwy'r system dreth, dylech siarad gyda'ch cyflogwr neu gysylltu â HMRC gan ddefnyddio'r rhifau a restrir ar: **www.hmrc.gov.uk/local/index.htm**

Student Loans Company

/SFWales /SF_Wales youtube.com/SFWFILM

student finance wales
cyllid myfyrwyr cymru

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

Gallwch archebu fersiynau Braille, fersiynau print mawr neu fersiynau sain o ffurflenni a chanllawiau trwy anfon neges e-bost gyda'ch enw a'ch cyfeiriad, a chan nodi pa ffurflen a pha ffurf y byddwch ei angen, at: **brailleandlargefonts@slc.co.uk**. Neu gallwch ein ffonio ar **0141 243 3686**.

Sylwer: dim ond gyda cheisiadau am ffurflenni a chanllawiau mewn ffurfiau amgen y gall y cyfeiriad e-bost a'r rhif ffôn uchod ddelio gyda nhw.

WG27900
ISBN 978-1-4734-5850-5

SFW/SLTC/V16/D